Cyfoeth Naturiol Cymru
Cyfarfod Bwrdd
Dydd Mawrth 21 Mai 2013

Teitl y Papur	**Drafft Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid**
Cyfeirnod y Papur:	**Papur NRW B (O) 5/13 – Mai 2013**
Noddwyd y Papur gan: **Awdur y Papur:**	Clive Thomas Meinir Wigley gyda Catrin Hornung, Kelvin Graham, Margaret Peters, Nia Jeffreys, Rhys Jenkins

Pwrpas y Papur:	Mae'r papur hwn yn cynnig Strategaeth ddrafft Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru
Argymhelliad:	Trafod a chytuno ar strategaeth ymgysylltu â rhanddeiliaid Cyfoeth Naturiol Cymru
Penderfyniad sydd ei Angen:	Cadarnhau'r Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid.

Effaith: Sylwer - mae'n bosibl nad yw pob pennawd yn berthnasol i'r pwnc Osgowch ddatganiadau cyffredinol a cheisiwch ganfod unrhyw effeithiau penodol sy'n gysylltiedig â phwrpas cyffredinol y papur	**Effaith ar yr Amgylchedd**: **Effaith ar yr Economi**: Er nad oes effaith uniongyrchol ar y ddwy elfen hyn, byddwn yn ystyried pob agwedd a safbwynt a fydd yn eu tro yn arwain at wneud penderfyniadau yn well. **Effaith ar y Gymuned**: Drwy ddefnyddio'r dull Gweithio gydag Eraill a theilwra'n prosesau ymgysylltu byddwn yn ceisio gweithio gyda chymunedau mewn ffyrdd sy'n addas iddyn nhw. Bydd ymgysylltu â rhanddeiliaid yn sicrhau fod y bobl a'r cyrff perthnasol yn cael cyfleoedd i ddylanwadau ar ein rhaglenni a'n ffyrdd o feddwl. **Effaith ar Wybodaeth**: Nid yw'r atebion i gyd gyda ni ac felly drwy sicrhau ymgysylltiad strategol a rhagweithiol â rhanddeiliaid, gallwn harneisio gwybodaeth ac arbenigedd ein partneriaid. Byddwn yn sicrhau fod pob ymgysylltu â rhanddeiliaid yn seiliedig ar dystiolaeth a gweithio mewn ffordd dryloyw, agored a gonest.

Pwnc Trafod

1. Bydd cynnwys y cyhoedd a rhanddeiliaid wrth i Gyfoeth Naturiol Cymru wneud penderfyniadau yn hanfodol i lwyddiant tymor hir y sefydliad drwy helpu i gyflenwi'n blaenoriaethau busnes.

2. Mae'r papur hwn yn cyflwyno'n strategaeth ymgysylltu â rhanddeiliaid ac yn gosod allan y prif egwyddorion a'r ffyrdd o weithio er mwyn sicrhau ymgysylltiad effeithiol â rhanddeiliaid.

Crynodeb

3. Mae gan Gyfoeth Naturiol Cymru grŵp rhanddeiliaid mawr ac amrywiol. Dylem gydnabod y bydd angen i ni ymgysylltu â gwahanol randdeiliaid am wahanol resymau ac y byddwn angen cynnal sgyrsiau adeiladol.

4. Yn ogystal â'r rhesymau polisi hyn dros ddatblygu dulliau effeithiol o ymgysylltu, mae cyfraith ryngwladol ac Ewropeaidd bellach yn pwysleisio pwysigrwydd cyfranogiad y cyhoedd, yn enwedig mewn perthynas â gwneud penderfyniadau i reoli adnoddau amgylcheddol a naturiol.

Cynigion

5. Trafododd y Bwrdd egwyddorion ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ei gyfarfod ym mis Chwefror a rhoddwyd mandad i'r Pwyllgor Gweithredol ddatblygu Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid i Gyfoeth Naturiol Cymru. Cyfarfu'r Grŵp Bwrdd Cymunedau â staff o'r tîm Cyfathrebu ar 15 Ebrill i ystyried papur egwyddorion lefel uchel cychwynnol.

6. Gan ddefnyddio'r adborth o'r cyfarfod hwn, yn ogystal â'r profiad helaeth a geir ymysg staff Cyfoeth Naturiol Cymru, datblygwyd y Strategaeth Ymgysylltu â Rhanddeiliaid ddrafft (Atodiad 1) i'w hystyried gan y Bwrdd. Gwahoddir y Bwrdd i drafod a chytuno ar y strategaeth, yn cynnwys unrhyw newidiadau neu ychwanegiadau sydd angen eu gwneud.

Y Camau Nesaf

7. Mae'n hollbwysig fod y staff i gyd yn deall eu cyfrifoldebau i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac felly bydd y strategaeth hon yn cael ei chyfleu drwy ei rhaeadru i'r holl staff perthnasol, wedi iddi gael ei chymeradwyo.

8. Bydd y tîm Rhanddeiliaid yn helpu timau lleol ac arbenigol i gynnal eu mapio rhanddeiliaid eu hunain a chynorthwyo i ddwyn cynllunio ymgysylltu perthnasol at ei gilydd.

Risgiau

9. Mae yna nifer o risgiau ynghlwm â pheidio â chymryd agwedd ragweithiol at ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn cynnwys
   - Colli cyfleoedd i weithio mewn partneriaeth, datblygu'n sail gwybodaeth dystiolaeth
   - Dyblygu gwasanaethau a ddarperir gan sefydliadau eraill
   - Dirywiad cyflym yn enw da Cyfoeth Naturiol Cymru, gan arwain at golli hyder neu hyd yn oed ddiffyg ymddiriedaeth a drwgdybiaeth, a phartneriaethau'n chwalu.
   - Cwynion yn codi, a fyddai'n mynd ag amser ac adnoddau i ffwrdd o'n gwaith allweddol.

Goblygiadau Ariannol

10. Dylid ystyried ymgysylltu â rhanddeiliaid yn rhan o bob agwedd o'n gwaith, a dylai'r costau gael eu hadeiladu i mewn i'r gyllideb weithredol.

Materion Cyfreithiol a Chydymffurfiaeth

11. Byddwn yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Gymraeg Cyfoeth Naturiol Cymru.

12. Byddwn yn mabwysiadu Egwyddorion Ymgysylltu Cyfranogaeth Cymru.

Cyfathrebu

13. Bydd cynllun cyfathrebu mewnol yn cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau fod y staff yn ymwybodol o'u dyletswyddau o safbwynt ymgysylltu â rhanddeiliaid a chodi ymwybyddiaeth o'r hyn y gall y tîm cyfathrebu ei gynnig o ran cefnogaeth a chyngor.

Atodiad 1 – Strategaeth Ddrafft Ymgysylltu â'r Cyhoedd